

Nid aur yw popeth melyn

Ffŵl Ebrill - Gweiddi



Dydy pethau ddim fel maen nhw'n ymddangos ar Ebrill y cyntaf!

Edrychwch ar y sleidiau sy'n dilyn.

Mae'r pethau yn y sleidiau'n edrych yn dda, ond pam dydyn nhw ddim cystal ag maen nhw'n edrych? Pam mae'r ddihareb, "Nid aur yw popeth melyn" yn wir ar gyfer y sleidiau yma?

Mewn geiriau eraill, beth ydy'r jôc Ffŵl Ebrill ym mhob llun?

Trafodwch hyn mewn grŵp ac yna ewch i'r adran **Atebion**.





Sleid 2



Sleid 3



Sleid 4



Sleid 5

Ebrill y cyntaf ar draws y byd

Mae pobl ar draws y byd yn chwarae jôcs ar Ddydd Ffŵl Ebrill, e.e. yn Sweden, Gwlad Groeg, Brasil, Yr Alban, Yr Almaen ac mewn gwledydd eraill.



Ffrainc a'r Eidal

Yn **Ffrainc a'r Eidal**, mae plant a phobl ifanc yn defnyddio tâp gludiog i osod pysgodyn ar gefn rhywun arall heb i'r person yna wybod. Yna, mae'r person yn cerdded o gwmpas gyda physgodyn ar ei gefn. Enw'r diwrnod yw *Poisson d'Avril* yn Ffrainc neu *Pesce d'Aprile* yn yr Eidal.

Iran

Yn **Iran**, maen nhw'n dathlu'r Flwyddyn Newydd ar ddiwedd Mawrth a dechrau Ebrill ac felly ar Ebrill y cyntaf, neu Ebrill yr ail weithiau, maen nhw'n treulio'r prynhawn yn yr awyr agored, yn bwyta, yn chwarae gemau ac yn chwarae jôcs caredig ar ei gilydd. Maen nhw'n chwerthin a chwerthin achos maen nhw'n credu bod chwerthin yn glanhau'r meddwl o feddyliau drwg.



Portiwgal

Maen nhw'n dathlu Ffŵl Ebrill ym **Mhortiwgal** ar y dydd Sul neu'r dydd Llun cyn y Grawys. Maen nhw'n taflu blawd at ei gilydd.

Ydych chi'n chwarae jôcs ar Ddydd Ffŵl Ebrill?

[Flour Child](#) gan [Steve](#); fe'u defnyddir o dan [CC BY](#)

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
dihareb	dywediad sy'n cynnwys syniad doeth	proverb
awyr agored	tu allan	open-air
y Grawys	cyfnod o 40 diwrnod cyn y Pasg	Lent

Sgam! - Gweiddi



Irfan



Dw i mor siomedig a dw i mor flin! Dw i byth yn mynd i brynu ar y we eto!

Siwan



Pam? Beth sy'n bod?

Irfan



Mae fy mhen-blwydd i mewn chwe wythnos ac felly gofynnais i i Dad brynu beic newydd i fi ar y we. Roedd e'n costio £100 + £8 ar gyfer cludiant ac roedd e'n edrych yn fargen. Doedd Dad ddim yn

hapus i wario cymaint o arian ar y we ond perswadiais i fe. Prynodd e'r beic.

Y bore 'ma, daeth y postman ag amlen fawr i fi. Agorais i'r amlen a ches i siom ofnadwy!!! Model o'r beic roeddwn i ei eisiau oedd yn yr amlen – dw i wedi cael model bach, nid y beic ei hun!

Siwan



Dw i ddim yn deall.Irfan



Sgam oedd e! Talodd Dad am feic go iawn (roedden ni'n meddwl), ond model bach o feic sydd wedi cyrraedd – nid y beic go iawn.

Siwan



Rhaid dy fod ti'n grac.

Irfan



Dw i mor siomedig ac mae Dad yn wyllt gacwn.

Sofia



Dw i'n gwybod sut wyt ti'n teimlo! Mae gen i freichled arian ac mae'n bosib prynu swyn dlysau arian

i'w rhoi arni hi. Mae'r rhain yn ddrud iawn yn y siopau lleol ond gwelais i'r swyn dlysau ar wefan. Edrychais i'n ofalus ar y lluniau ar y we a'u cymharu nhw gyda'r lluniau yng nghatalog y cwmni ac roedden nhw'n edrych yn union yr un fath ond yn llawer rhatach. Felly dewisais i ddau am hanner y pris arferol. Talodd Mam gyda'i cherdyn banc.

Irfan



Beth ddigwyddodd?

Sofia



Cyrhaeddodd y swyn dlysau ac roedden nhw'n edrych yn union fel y rhai yn y catalog. Ond rhai ffug ydyn nhw. Maen nhw wedi eu gwneud o fetel rhad wedi eu peintio'n lliw arian. Mae'r paent yn dod i ffwrdd pan dw i'n eu gwisgo nhw. Mae un ohonyn nhw wedi torri'n hanner hefyd.

Irfan



Mae hynna'n debyg i fy mhroblem i.

Siwan



Ydy. Beth wyt ti'n mynd i wneud nawr?

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
yn flin	yn ddig, yn grac	angry
cludiant	postio	postage
yn wyllt gacwn	yn flin / yn grac iawn, iawn	really angry
breichled	gemwaith i'w wisgo am eich braich	bracelet
swyn dlysau	tlysau bach i'w rhoi ar freichled	charms
yn union yr un fath	yr un peth yn union â	exactly the same as
arferol	fel arfer	usual
ffug	nid y peth go iawn	fake, false

Croeso i Rio - Gweiddi



Bydd Rio de Janeiro yn y newyddion yn ystod haf 2016 oherwydd dyma ble bydd y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd yn cael eu cynnal. Hon yw dinas fwyaf ond un Brasil ac mae'n ddinas liwgar, ddiddorol a chyffrous.

LLIWGAR!

Hwyl ... cyffrous ... lliwgar ... anhygoel. Dyna rai ansoddeiriau i ddisgrifio carnifal Rio de Janeiro, sy'n digwydd 40 diwrnod cyn y Pasg.

Dyma'r carnifal mwyaf yn y byd ac mae'n digwydd dros 5 diwrnod, gan ddechrau ar ddydd Gwener a gorffen ar y dydd Mawrth cyn y Grawys.

Mae miloedd o bobl yn cymryd rhan ac yn cael amser anhygoel!





DIDDOROL!

Mae miliynau o bobl yn dod i Rio de Janeiro bob blwyddyn i weld y carnifal a'r golygfeydd ysblennydd ac maen nhw'n cael eu syfrdanu gan y traethau anhygoel, yn enwedig Copacabana ac Ipamena. Dyma rai o draethau gorau'r byd.

CYFFROUS!

Fel yng ngweddill Brasil, mae pêl-droed yn boblogaidd yn Rio de Janeiro ac mae Stadiwm Maracanã yn stadiwm bwysig iawn. Dyma ble bydd seremonïau agor a chloi'r Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd yn digwydd.



Ydy, mae Rio de Janeiro'n ddinas fywiog, ddiddorol a chyffrous.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
golygfeydd	lluosog "golygfa"	sights, scenery
ysblennydd	ardderchog, gwyh	splendid
maen nhw'n cael eu syfrdanu	maen nhw'n rhyfeddu	they are surprised
gweddill	pob rhan arall	all the other parts, the remainder
fodd bynnag	ond	however

Nid aur yw popeth melyn – ffeithiau difyr



Edrychwch ar y llun yma. Mae'n edrych yn lle diddorol i fynd iddo am y dydd ond dydy e ddim! Pam tybed? Trafodwch eich syniadau mewn grŵp.

Mae'r creadur bach yma'n byw yn Fietnam ac mae e'n edrych yn annwyl iawn. Fodd bynnag, dydy e ddim mor annwyl ag mae'n ymddangos. Pam tybed? Trafodwch eich syniadau mewn grŵp.





Ydych chi'n hoffi caws? Wel, beth am y caws yma o'r Eidal. **Casu morzu** yw enw'r caws ac mae e'n edrych yn flasus iawn ond dydy e ddim mor flasus ag mae e'n edrych. Pam tybed? Trafodwch eich syniadau mewn grŵp.

Beth am wyau? Ydych chi'n hoffi brechdanau wy, wy wedi ei ffrio, wy wedi'i sgramblo neu wy wedi'i ferwi? Tybed fydddech chi'n hoffi'r wyau yma o China? Maen nhw'n edrych yn hyfryd ond tybed beth sydd tu mewn? Trafodwch eich syniadau mewn grŵp.



Ar ôl trafod pob llun, cymharwch eich syniadau fel dosbarth ac yna ewch i'r adran **Atebion**.

Ffrind newydd - Gweiddi



Sean

Haia, Jo.

Sean – dw i'n ffrind i Ben.

Wyt ti eisiau siarad?

Sean

Dw i'n ffrind i Ben. Wyt ti'n ffansio sgwrs?

Jo

Pam lai?

Jo

Beth wyt ti eisiau gwybod amdana i?

Sean

Unrhyw beth.

Sean

Dw i'n gwybod dy fod ti'n 15 oed a dy fod ti'n byw yn Abermawr – dw i'n ffrind i Ben, cofio?

Jo

O!

Jo

Wel, dw i wrth fy modd gyda chwaraeon – nofio yn arbennig. Dw i'n nofio yn y pwll nofio bob bore dydd Sadwrn. Dw i'n mwynhau mynd allan gyda ffrindiau.

Sean

I ble?

Jo

Sori – Mam!!!

Jo

Dw i ddim i fod i siarad ar-lein – ac roedd hi'n dod i mewn i'r ystafell. Doeddwn i ddim eisiau iddi hi weld beth roeddwn i'n wneud.

Sean

Beth ddigwyddodd?

Jo

Dim byd. Wnes i glicio ar yr X ar y sgrin ar unwaith ac yna roedd hi'n gallu gweld fy ngwaith cartref i ar y sgrin. Popeth yn iawn.

Sean

Mamau!

Sean

Cytuno'n llwyr. Mae ffrindiau'n well. Dw i'n hoffi'r llun proffil ar dy dudalen di.

Jo

Diolch.

Jo

Erin, fy ffrind gorau. Pam wyt ti eisiau gwybod amdani hi? Wyt ti'n ei ffansio hi?

Sean

Hei – dw i'n siarad gyda ti nawr – nid Erin.

Jo

O!

Jo

Pam?

Jo

O!?!?

Jo

Siocled! Dw i wrth fy modd gyda siocled – siocled tywyll, siocled gwyn, siocled llaeth – unrhyw fath o siocled.

Sean

lawn, beth ydy dy gyfeiriad ti?

Jo

Dw i ddim i fod i roi fy nghyfeiriad i ar y we – mae Mam wedi dweud sawl gwaith.

Sean

Mamau eto!!! Dw i'n ffrind i Ben, cofio? Felly, dim problem!

Jo

O, iawn – os wyt ti'n ffrind i Ben. Pam wyt ti eisiau gwybod beth bynnag?

Sean

Rwyt ti'n hoffi siocledi – efallai galla i anfon anrheg fach i ti.

Jo

Pa fath o anrheg?

Trysor? - Gweiddi



“Awtsh” gwaeddodd Erin wrth iddi syrthio’n galed ar y ddaear, wrth geisio rhwystro’r bêl rhag mynd i gefn y rhwyd.

“Gôl,” gwaeddodd Rhids a Matt.

“Awtsh,” cwynodd Erin eto, gan rwbio’i choes.

“Beth sy’n bod?” gofynnodd Lili, gan gerdded tuag at Erin.

“Dw i wedi baglu dros rywbeth caled yn y ddaear,” eglurodd Erin.

Rhedodd y ddau fachgen a Lili at Erin.

“Bobl bach! Bocs!” meddai Erin a defnyddiodd ei dwylo i frwsio’r pridd oddi ar wyneb y peth caled oedd yn y pridd. “Hen focs! Edrychwch. Tybed beth sy tu mewn iddo?”

Ar hynny, agorodd y bocs a safodd y pedwar ffrind yn hollol lonydd, fel pedwar delw, wrth i Erin godi llond dwrn o ddarnau aur a gadael iddyn nhw lifo yn ôl i mewn i’r bocs fel rhaeadr aur.

“Aur?” gofynnodd Lili.

“Darnau arian?” gofynnodd Matt.

“Dan ni’n gyfoethog,” chwarddodd Rhids, gan brancio o gwmpas fel ebol ifanc. “Dyn ni’n gyfoethog!”

“Sh,” rhybuddiodd Erin. “Rhaid i ni fod yn dawel am hyn. Dan ni ddim isio i bawb w’bod ein bod ni wedi ffeindio rhywbeth gwerthfawr.”

“Ydy o’n werthfawr?” gofynnodd Matt. “Mae’r bocs yn fudr iawn.”

“Mae o’n fudr achos mae o wedi bod yn y pridd ers blynyddoedd ... ers degau o flynyddoedd ... ers cannoedd o flynyddoedd ella.”

“Bobl bach!” eisteddodd Matt ar y glaswellt, yn wên o glust i glust.

“Ond beth dan ni’n mynd i ’neud gyda’r darnau yma?”

“Mae gan Yncl John siop gemwaith yn y dref. Rhaid i ni fynd i ofyn iddo fo,” awgrymodd Erin.

“Ond ...?” dechreuodd Rhids.

“Dim ‘Ond’ Rhids! Rhaid i ni fynd at Yncl John rŵan. A rhaid i ni beidio deud wrth neb arall! Yna, os ydy’r darnau’n werthfawr, gallwn ni ddefnyddio’r arian i brynu anrhegion i’r teulu a ffrindiau – i roi syrpreis iddyn nhw.”

“Prynu anrhegion i’r teulu a ffrindiau?” gofynnodd Matt, fel pe bai’n methu credu ei glustiau. “Dw i’n mynd i wario’r arian arna i fy hun - hoffwn i gael tabled ... a ffôn newydd... a hoffwn i gofrestru ar gwrs cic-focsio yn y gampfa ... a hoffwn i brynu strip tîm rygbi Cymru ... a hoffwn i ...”

“Arhosa funud!” Stopiodd Rhids Matt ar ganol brawddeg. Dan ni ddim yn gw’bod beth ydy gwerth y rhain eto - beth am fynd i weld ‘Yncl John’?”

Ac i ffwrdd â nhw ...



“Na, nid aur ydyn nhw,” eglurodd Yncl John. “Efydd ydyn nhw ac, fel dach chi’n gw’bod, dydy efydd ddim mor werthfawr ag aur.”

“Ydy hynna’n wir?” gofynnodd Matt i Rhids.

“Dw i ddim yn gw’bod,” atebodd Rhids.

“Wyt ti’n ei drystio fo?” gofynnodd Matt eto.

“Dw i ddim yn siŵr,” atebodd Rhids.

“Mi wna i roi mil o bunna’ yr un i chi,” cynigiodd Yncl John.

“Faint?” gofynnodd Erin, yn methu credu ei bod hi’n mynd i gael mil o bunnau am syrthio ar hen focs ar y cae chwarae.

“Gwych!” dywedodd Lili.

“lawn,” cytunodd y ddau fachgen gan fod y merched yn hapus a gan fod mil o bunnau’n well na dim.

“Gadewch i mi nôl y pres o’r sêff,” a cherddodd Yncl John i’r ystafell gefn.



“Dydy o ddim yn edrych yn llawer,” dywedodd Matt, gan ffanio’i wyneb gyda’r arian papur roedd Yncl John wedi ei roi iddo.

“Well i ti roi’r arian yn dy boced o’r golwg,” awgrymodd Lili. “Dan ni’n cerdded ar hyd y briffordd! Mae pawb yn gallu gweld yr arian yna!”

“Beth wyt ti’n mynd i ’neud efo fo?” gofynnodd Erin i Rhids.

“Dw i’n mynd i wario peth ohono fo a dw i’n mynd i roi peth yn y banc.”

“Rhoi peth yn y banc?” ebychodd Matt. “Dw i wedi deud beth dw i’n mynd i ’neud efo fo.”

“O, rwyt ti’n hunanol!” meddai Lili. “Ti ... ti ...ti! Dyna’r unig berson rwyt ti’n meddwl amdano fo drwy’r amser – TI!”

“O pwy wyt ti – Miss Perffaith, ia? A beth wyt ti’n mynd i ’neud efo’r arian? Rhoi’r cyfan i achos da?” gofynnodd Matt yn sarcastig.

“Does dim angen bod fel yna!” atebodd Lili.

“Ti ddechreuodd!” dywedodd Rhids, gan amddiffyn Matt.

“Hei, does dim angen i ti gymryd ochr Matt,” dywedodd Erin.

“Wel, rwyt ti’n cymryd ochr Lili rŵan on’d wyt ti?” gwaeddodd Matt

“Wel, os dach chi’n mynd i fod fel yna, dan ni’n mynd,” dywedodd Erin, gan afael ym mhenelin Lili a cherdded i ffwrdd â’i phen yn yr awyr.

“Peidiwch anghofio pwy ffeindiodd yr arian yn y lle cyntaf,” gwaeddodd yn ôl dros ei hysgwydd.



Y noson honno, roedd Erin a Lili’n eistedd ar y sofffa yn nhŷ Lili, yn gwyllo ffilm. Yn sydyn roedd curo swnllyd ar y drws ffrynt.

“Mi wna i fynd!” gwaeddodd mam Lili o’r gegin

Yna, agorodd drws yr ystafell fyw a phwy gerddodd i mewn ond Matt ... a Rhids ... a mam Lili yn eu dilyn nhw. Tu ôl iddyn nhw roedd plismones a phlismon.

Y plismon siaradodd gyntaf.

“Lili Prothero ac Erin Williams?”

Edrychodd y ddwy'n syn ar ei gilydd.

“Ia,” atebodd y ddwy, yn bryderus.

“Dewch efo ni i'r orsaf heddlu os gwelwch yn dda. Mi wnawn ni ffonio'ch rhieni chi, Erin, a gofyn iddyn nhw ddod i gyfarfod â ni yn Swyddfa'r Heddlu. Mae John Williams, y gemydd, yno'n barod.”


“Pam? Beth sy'n bod?” gofynnodd Erin?



Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
ar hynny	yn dilyn hynny ar unwaith	thereupon, consequently
llond dwrn	llond – yn llawn / dwrn – llaw wedi ei chau	fistful
rhaeadr	dŵr yn llifo dros ryw fath o ddibyn	waterfall
ella	ffurf lafar “efallai”	perhaps

Ffaith neu ffug? - Gweiddi



Yn 1957, roedd adroddiad arbennig ar y rhaglen *Panorama* ar y BBC. Yn ôl yr adroddiad, roedd teulu yn y Swistir yn tyfu sbageti ar goed. Roedd y rhaglen yn dangos merched yn tynnu'r sbageti o'r coed ac yn eu gosod nhw ar y ddaear yn ofalus i sychu. Roedd cymaint o ddiddordeb yn y stori fel bod llawer o wylwyr wedi ysgrifennu at y BBC i ofyn am gyngor ynglŷn â sut gallen nhw eu hunain dyfu coed sbageti. Beth oedd dyddiad y rhaglen? Ebrill y cyntaf 1957. Ie, jôc Ffŵl Ebrill oedd y stori ac roedd hi'n jôc dda gan fod miloedd o bobl wedi ei chredu hi. [Rhaid cofio nad oedd pobl ym Mhrydain mor gyfarwydd â bwyta pasta yr adeg honno.] Allwch chi ddim credu popeth rydych chi'n ei ddarllen neu'n ei weld ar y teledu. Ond beth am yr eitemau yma o newyddion? Ydyn nhw'n wir neu ydyn nhw'n ffug? Cliw: Mae dwy o'r straeon yn wir ond mae un yn ffug – ond pa un?

Drilio yn y gofod

Mae Lwcsembwrg yn bwriadu drilio ar asteroidau er mwyn dod o hyd i fetelau fel platinwm.

Mae tua 13,500 o asteroidau wedi'u darganfod yn agos i'r Ddaear a byddai drilio i mewn iddyn nhw'n ffordd dda o sicrhau bod digon o fetel yn cael ei gynhyrchu ar ein cyfer ni ar y Ddaear.

“Mae'n bosib y byddai drilio i mewn i asteroid am blatinwm yn rhoi mwy o'r metel yma i ni nag rydyn ni erioed wedi ei gael o'r blaen,” meddai llefarydd ar ran y prosiect.



Pot iogwrt i bobl lawchwith

Os edrychwch chi ar y we, mae dewis helaeth o offer cegin ar gyfer pobl lawchwith a phobl lawdde, e.e. cyllyll arbennig, sisyrnau arbennig, agorwyr tuniau arbennig, llwyau arbennig.

Tan yn ddiweddar, fodd bynnag, roedd rhai pobl lawchwith yn teimlo bod bwyta iogwrt yn gallu bod yn broblem. “Mae’r potiau wedi cael eu creu ar gyfer pobl lawdde,” meddai Charles Lewis o gymdeithas Gwella Ansawdd Bywyd Pobl Lawchwith.

Felly, mae cwmni Food-pots-for-all wedi creu potiau iogwrt sy’n arbennig ar gyfer pobl lawchwith. “Mae clust fel clust cwpan ar ochr dde’r pot,” dywedodd llefarydd ar ran y cwmni, “ac felly mae’n hawdd dal y pot yn y llaw dde a defnyddio llwy yn y llaw chwith.”

Mae’r potiau i’w cael mewn amrywiaeth o liwiau a phatrymau modern.



Rownd ... a rownd ... a rownd!

“Gardd hyfryd yng nghanol môr o darmac,” dyna un disgrifiad o gylchfan, yn ôl y Gymdeithas Gwerthfawrogi Cylchfannau. Oes, mae cymdeithas wedi cael ei chreu i ganmol ac i werthfawrogi cylchfannau. Pam? Achos mae cylchfannau’n wych ar gyfer rheoli traffig ond hefyd maen nhw’n gwneud gwaith pwysig iawn yn gwarchod yr amgylchedd. Gan fod gerddi bach wedi’u plannu ar rai ohonyn nhw, maen nhw’n gartref gwych i anifeiliaid a bywyd gwyllt. “Ble bydden ni heb gylchfannau?” gofynnodd un aelod o’r gymdeithas!



Siom - Gweiddi



Ydych chi wedi cael eich siomi erioed?

Oeddech chi'n disgwyl rhywbeth gwych, ond roedd yr hyn ddigwyddodd yn wahanol iawn?

Darllenwch yr hysbyseb yma o lyfryn gwyliau.



- Gwesty tair 3 seren; ystafelloedd gwely mawr gydag en-suite.
- Ystafell fwyta fawr yn gweini amrywiaeth o fwyd blasus.
- Brecwast poeth bob dydd.
- Mae glendid yn bwysig i ni. Mae'r staff yn glanhau'r ystafelloedd bob bore ac yn newid y gwelyau bob dau ddiwrnod.

Mae'r gwesty ger y traeth mewn lle delfrydol i ddal y trê neu'r bws.

Ewch i Dasg 1 cyn darllen ymhellach. Nawr, darllenwch y llythyr yma.

Cartref

Ffordd y Fron

Aberystwyth

SA34 7TY

Ysgrifennaf atoch am westy Bella Vista yn Lagos, Portiwgal, sy'n cael ei hysbysebu yn eich llyfryn gwyliau (tudalen 34).

Ar ôl darllen y wybodaeth yn eich llyfryn gwyliau, roedden ni'n edrych ymlaen at dreulio wythnos hyfryd mewn gwesty moethus ond rhaid i fi ddweud bod eich hysbyseb yn gamarweiniol am nifer o resymau.

Yr ystafell wely

Cawsom ein rhoi mewn adeilad bach tu ôl i'r prif westy – yr “Annexe” – ac felly ystafell fach iawn a gawsom. Pan ofynnais am ystafell fwy, dywedodd un o'r staff ein bod ni wedi cael ein rhoi yn yr ystafell yma gan ein bod ni wedi cael 30% o ostyngiad oddi ar bris arferol y gwesty – fel “bargen arbennig”. Nid oedd gennym *en-suite* ac roedd rhaid i ni rannu ystafell ymolchi gydag wyth o bobl eraill!

Y bwyd

Roedd yna fwyd poeth i frecwast - os ydych chi'n ystyried bara cynnes a choffi claeaf yn “fwyd poeth”. Yn sicr, doedd dim cig moch ac wyau fel roeddem yn ei ddisgwyl. A beth am yr “amrywiaeth o fwyd” yn eich hysbyseb? Roedd bwydlen bob nos yn wahanol ond dim ond un pryd o fwyd oedd yn cael ei weini ar un noson ac roedd hwnnw'n ofnadwy!

Y lleoliad

Mae'r hysbyseb yn dweud bod y gwesty “ger y traeth” ac mewn “lle delfrydol i ddal y trê neu'r bws”. O safbwynt bod “ger y traeth” mae hyn yn dibynnu ar sut rydych chi'n diffinio “ger”! Roedd y gwesty dri chwarter milltir o'r traeth! Mae'n wir bod y gwesty'n ddigon agos i'r orsaf trenau a'r orsaf bysiau. Roedd yr *Annexe* gyferbyn â'r orsaf trenau a bob hanner awr roeddem yn teimlo'r ddaear yn crynu wrth i'r trenau gyrraedd a gadael yr orsaf!

Glendid

Roedd llwch ofnadwy o dan y gwely, roedd sedd y tŷ bach wedi torri ac roedd gwallt yn y sinc (yn yr ystafell ymolchi roeddem yn ei rhannu!), roedd staen ofnadwy ar un o'r cadeiriau ac ni chawsom ddillad gwely glân drwy'r wythnos.

Rydym yn siomedig iawn gyda'r gwyliau hyn ac er bod y gwyliau'n “fargen arbennig” roedd rhaid i ni dalu £1,250 am bedwar ohonon ni – gwastraff arian llwyr! Mae'ch hysbyseb yn awgrymu bod y gwesty'n cynnig gwyliau gwych ond roedd hyn yn gwbl gamarweiniol.

Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthyich.

Yn gywir


J. Smith

J. Smith

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
en-suite	ystafell ymolchi breifat wrth ochr ystafell wely	en-suite
gweini	darparu	to serve
amrywiaeth	gwahanol fathau	variety
glendid	y cyflwr o fod yn lân	cleanliness
delfrydol	gorau	ideal
moethus	crand iawn	luxurious
camarweiniol	arwain rhywun i'r cyfeiriad anghywir	misleading
gostyngiad	disgownt, pris is	discount
claear	rhwng oer a chynnes; ychydig bach yn gynnes	lukewarm
o safbwynt	yng nghyd-destun, mewn perthynas â	in relation to
diffinio	egluro, ystyried	to define

Aur – popeth melyn! - Gweiddi



28 Hydref, 1859

Yr ydym wedi cael storm ofnadwy yr wythnos hon. Roedd y gwyntoedd yn wyllt – mor wyllt fel bod llawer o ddifrod wedi digwydd yn yr ardal.

Y peth gwaethaf, fodd bynnag, oedd llongddrylliad ar y creigiau. Tua un ar ddeg o'r gloch y nos, angorodd llong o'r enw Royal Charter oddi ar yr arfordir, a dechreuodd anfon rocedi i'r awyr er mwyn dangos ei bod mewn perygl. Roedd hi'n gwbl amhosib i unrhyw gwch neu long fentro allan i roi cymorth. Tua thair awr yn ddiweddarach cafodd y llong ei gwthio tuag at y draethell gan fod y ddwy gadwyn oedd yn ei chlymu wedi torri.

Gwelodd Thomas Hughes beth oedd yn digwydd a rhedodd o gwmpas y pentref i geisio trefnu cymorth. Yn y cyfamser, nfiodd un o'r dynion o'r llong i'r lan gyda rhaff, a dechreuodd rhai pobl ddod oddi ar y llong, gan ddefnyddio'r rhaff. Aeth tua 28 o bobl y pentref i lawr i'r traeth i geisio cynorthwyo. Ond yna, cafodd y llong ei hyrddio ar y creigiau, torrodd yn ddau a bu farw'r rhan fwyaf o'r bobl oedd arni.

Mae'n debyg bod rhai pobl wedi neidio i'r dŵr ac wedi ceisio nofio i'r lan ond methon nhw gan eu bod wedi llenwi eu pocedi ag aur ac wedi gwisgo gwregysau yn llawn aur.


Mae cyrff rhai o'r bobl druenus wedi cyrraedd y traeth erbyn hyn – tybed faint mwy sydd i ddod?

Llongddrylliad

Roedd llongddrylliad oddi ar Porth Alerth, i'r gogledd-ddwyrain o Ynys Môn nos Fawrth / bore Mercher diwethaf, 25-26 Hydref.

Royal Charter oedd enw'r llong – un o longau'r cwmni Liverpool and Australian Steamship Navigation a lansiwyd yn 1855. Roedd hi wedi cael ei hadeiladu yng Nglannau Dyfrdwy.

Llong stêm oedd hi ac roedd lle i 600 o deithwyr a chargo arni. Roedd hi'n llong gyflym. Gallai deithio o Awstralia i Lerpwl mewn llai na 60 diwrnod.



Roedd y llong wedi teithioo Melbourne, Awstralia gyda tua 500 o bobl arni. Roedd llawer o'r rhain wedi bod yn cloddio am aur yn Awstralia ac roedd cargo o aur ar y llong hefyd.

Noson stormusRoedd hi'n noson stormus tu hwnt, gyda gwyntoedd cryf iawn yn cyrraedd tua phwynt 12 ar Raddfa Beaufort. Mae pwynt 8 ar y raddfa'n dynodi hyrddwynt ond mae pwynt 12 yn dynodi corwynt ac felly gellir dychmygu pa mor anodd oedd yr amgylchiadau. Am un ar ddeg o'r gloch, angorodd y llong oddi ar arfordir gogledd-ddwyrain Ynys Môn ond roedd y gwynt mor gryf, torrodd y cadwyni a chafodd y llong ei hyrddio tuag at y creigiau ger Porth Alerth, ger Moelfre. Torrodd y llong yn ddau ddarn wrth iddi gael ei hyrddio yn erbyn y creigiau gan y gwyntoedd cryfion, tua 100 milltir yr awr. Credir bod dros 450 o bobl wedi eu lladd, llawer ohonynt wrth iddynt daro yn erbyn y creigiau. Yn ogystal, boddodd rhai wrth iddynt geisio nofio i'r lan gan eu bod wedi llwytho aur i mewn i'w pocedi a gwisgo gwregysau trwm yn cynnwys aur cyn gadael y llong. O gwmpas Cymru Mae'r storm ofnadwy wedi achosi llawer o ddifrod o gwmpas arfordir Cymru, gan gynnwys codi'r to a difrodi waliau Eglwys Sant Brynach yng Nghwm yr Eglwys, Sir Benfro.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
difrod	niwed	damage
llongdrylliad	llong sydd wedi cael ei dinistrio, e.e. mewn storm neu ar greigiau	shipwreck
angori	gollwng yr angor i mewn i'r môr er mwyn gwneud y llong yn sefydlog	to anchor
traethell	banc tywod	sandbank
yn y cyfamser	tra oedd hyn yn digwydd	in the meantime
hyrddio	gwthio ymlaen yn gryf	to drive forward violently
gwegysau	lluosog "gwegys"; rhywbeth rydych chi'n ei wisgo am eich canol	belts
dynodi	dangos	to denote
hyrddwynt	gwynt cryf iawn	gale
corwynt	gwynt cryf iawn, cryfach na hyrddwynt	hurricane
difrodi	achosi difrod	to damage